

Costau aros mewn gwesty

21/05/2012

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales



Annwyl

Cais am wybodaeth

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 11 Mai, pan wnaethoch ofyn,

Faint mae'n ei gostio i AC aros dros nos yn y gwesty hwn? (Gwesty Dewi Sant)

Mae Aelodau'r Cynulliad yn cael taliadau i'w had-dalu am y treuliau ychwanegol sy'n codi'n anorfod pan fyddant yn aros dros nos oddi cartref wrth ymgymryd â'u gwaith fel Aelodau'r Cynulliad. Bydd rhai Aelodau'n aros mewn gwestai'n agos at y Senedd er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau yn y Cynulliad.

Bwrdd Taliadau Annibynnol y Cynulliad sy'n pennu maint y taliadau a'r lwfansau hyn i'r Aelodau. Mae'r rheolau'n ymwneud â'r trefniadau hyn wedi'u gosod allan ym Mhennod 4 o'r ddogfen [Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau](#) sydd wedi'i chyhoeddi ar wefan y Cynulliad: <http://www.cynulliadcymru.org/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/mem-expenses-2.htm>. Yr uchafswm y gellir ei hawlio am aros dros nos mewn gwesty yng Nghaerdydd (gan gynnwys brecwast a pharcio) yw £95. Mae'r Cynulliad yn trefnu i Aelodau aros mewn nifer o westai ym Mae Caerdydd neu'r ardal gyfagos sy'n cynnig cyfraddau gostyngol o £95 neu lai. Caiff y gwir swm a gaiff ei dalu i Aelodau unigol ei gyhoeddi'n rheolaidd yn y Gronfa Ddata Lwfansau ar wefan y Cynulliad <http://www.allowances.assemblywales.org.uk/>

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn <http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm>.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 821813

E-bost/Email: Alison.Rutherford@wales.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn.
Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar
ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

Alison Rutherford
Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn credu nad wyf wedi cymhwyso'r Cod yn briodol neu heb ddilyn y deddfau perthnasol, gallwch wneud cwyn ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd. Mae manylion egwyddorion cwynion y Cynulliad wedi'u gosod allan yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar y Fewnrwyd yn <http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm>. Cysylltwch â mi oes hoffech gopi wedi'i argraffu.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Alison Rutherford
Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru